

Cynnig cysylltiad - esboniad



**SP ENERGY
NETWORKS**

Chi sydd â'r dewis...

Ar ôl i chi dderbyn eich dyfynbris, gallwch benderfynu os ydych am i ni gwblhau pob elfen o'ch cysylltiad o'r dechrau i'r diwedd, neu os hoffech gael darparwr arall i wneud elfennau penodol o'r gwaith cysylltu.

Mae'r dyfynbris rydym wedi'i ddarparu yn cynnig 2 opsiwn i chi, a bydd yn rhoi'r manylion angenrheidiol er mwyn i chi wneud y dewis iawn. Mae hyn yn cael ei alw'n Gynnig Deuol.

Deall eich Dyfynbris Deuol

Mae eich dyfynbris deuol wedi'i rannu'n ddwy ran – Gwaith Llawn neu Pwynt Cysylltu.

Dewis
1

Cynnig Gwaith Llawn

Gyda'r dewis hwn, bydd yr holl waith sy'n gysylltiedig â'ch gofynion cysylltiad – o'r dechrau i'r diwedd – yn cael ei wneud gan SP Energy Networks. Mae hyn yn golygu y byddwn yn cwblhau'r gwaith roedd modd cystadlu amdano a'r gwaith nad oedd modd cystadlu amdano. Edrychwch am fanylion pellach o dan yr adran 'Eich Cynnig Llawn' yn eich dyfynbris.

Dewis
2

Pwynt Cysylltu

Yn yr achos hwn, bydd SP Energy Networks yn cwblhau'r gwaith nad oedd modd cystadlu amdano ar eich cysylltiad, gan adael i chi benodi Darparwr Cysylltu Annibynnol (ICP) sydd wedi'i achredu ar gyfer y gwaith roedd modd cystadlu amdano. Byddant yn gweithio ochr yn ochr â ni i gwblhau eu rhan nhw o'r gwaith. Bydd manylion o dan yr adran 'Eich Cynnig Pwynt Cysylltu' yn eich dyfynbris.

[https://www](https://www.scottishpower.com/pages/connections_use_of_system_and_metering_services.aspx)

Gellir dod o hyd i restr gyflawn o'r gwaith roedd modd cystadlu amdano a'r gwaith nad oedd modd cystadlu amdano ar ein gwefan:

www.scottishpower.com/pages/connections_use_of_system_and_metering_services.aspx

Mae eich Cynnig Deuol yn rhoi crynodeb a dadansoddiad manwl i chi o'r costau – ar gyfer y ddau ddewis. Gallwch ddod o hyd i amserlen hefyd gyda gwybodaeth bellach.

- Os ydych yn dewis SP Energy Networks i wneud y cysylltiad cyfan, byddwn yn codi tâl am y gwaith roedd modd cystadlu amdano a'r gwaith nad oedd modd cystadlu amdano y gofynnodd i ni ei wneud. Mae'n bwysig nodi na allwn ddechrau'r gwaith ar eich cysylltiad nes i ni gael eich taliad a'ch ffurflen gadarnhau wedi'i llofnodi.
- Os ydych yn dewis cwmni arall i wneud y gwaith roedd modd cystadlu amdano, byddwch yn talu unrhyw gostau perthnasol yn uniongyrchol iddyn nhw.
- Os oes gennych unrhyw gwestiynau ynglŷn â'r cynnig, bydd eich dylunydd yn fwy na pharod i'ch helpu. Gallwch ddod o hyd i fanylion cyswllt yn y llythyr cadarnhau.

Camau nesaf...

Mae eich dyfynbris yn ddilys am 3 mis o ddyddiad y cynnig.

Cyn i chi wneud penderfyniad, dylech:



1. Darllen y manylion llawn ar gyfer y cynnig Gwaith Llawn a'r cynnig Pwynt Cysylltu.

2. Hefyd, darllenwch yr Amodau a Thelerau Cyffredinol ar gyfer Cysylltiad - www.spenergynetworks.co.uk/terms



3. Os ydych yn dewis derbyn yr opsiwn Pwynt Cysylltu, bydd angen i chi benodi eich ICP/IDNO eich hun. O safbwynt eich diogelwch, dylai unrhyw ICP ac IDNO gael yr achrediau priodol i gynnal unrhyw waith roedd modd cystadlu amdano.

Gallwch gael mwy o wybodaeth yn:

ICP - www.lloydsregister.co.uk/schemes/NERS/

IDNO - <https://www.ofgem.gov.uk/electricity/distribution-networks/connections-and-competition/independent-distribution-network-operators>



4. Os ydych am dderbyn eich dyfynbris, cwblhewch y Llythyr Cadarnhau, gan wneud yn siŵr eich bod yn dewis un o'r opsiynau'n unig.




5. Wrth dderbyn, ystyriwch yr amseru ac effaith hynny ar amserlen y prosiect.

Wedi newid eich meddwl?

Os ydych yn dewis opsiwn Pwynt Cysylltu, ac yna'n penderfynu mynd am yr opsiwn Gwaith Llawn, bydd angen i ni ad-dalu eich taliad a threfnu cynnig cysylltiad newydd. Mae'n bwysig nodi hynny, oherwydd gall effeithio ar amserlen eich prosiect.

Gellir cael mwy o wybodaeth yn:
www.spenergynetworks.co.uk





Cysylltu â ni

Os oes angen mwy o gymorth arnoch, gallwch ffonio ein dylunydd prosiect. Bydd ei enw a'i rif ar eich dyfynbris. Neu gallwch gysylltu â ni ar y manylion isod:

E-bost: gettingconnected@scottishpower.com

Canolbarth a De'r Alban:

SP Energy Networks
320 St Vincent Street, Glasgow, G2 5AD

Ffôn: 0800 389 1785

Swydd Gaer, Glannau Mersi, Gogledd Cymru a Gogledd Swydd Amwythig

PO Box 290
Lister Dr, Liverpool
L13 7HJ

Ffôn: 0800 389 1783



**SP ENERGY
NETWORKS**